**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig/Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5875/24
Paul.Davies@senedd.wales

22 Gorffennaf 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y byddaf heddiw, ynghyd â'r Prif Weinidog, yn cyhoeddi **Bwyd o Bwys: Cymru**. Bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ym mis Mai 2023, ymrwymodd fy rhagflaenydd i gyhoeddi dogfen yn nodi polisïau bwyd ar draws Llywodraeth Cymru a sut maent yn cyd-fynd â'r amcanion cyffredinol. Mae cyhoeddi Bwyd o Bwys: Cymru yn cyflawni'r ymrwymiadau i argymhellion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac i'r Senedd.

Mae Bwyd o Bwys: Cymru yn gosod polisïau yng nghyd-destun agenda strategol gyfunol Llywodraeth Cymru a sut maent yn ymwneud â'r amcanion llesiant yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26. Mae'r amcanion llesiant yn nodi sut y gallwn hyrwyddo nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Bwyd o Bwys: Cymru hefyd yn esbonio sut rydym yn datblygu ac yn cyflawni polisi drwy fabwysiadu'r pum ffordd o weithio.

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â'r ffocws ar fwyd yn strategaeth saith mlynedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru Can. Mae'r amrywiaeth o bolisïau sy'n gysylltiedig â bwyd a sut y cânt eu datblygu a'u cyflawni, yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio a chydgysylltu rhwng y Llywodraeth a llawer o'n rhanddeiliaid. Rwyf wedi bod yn glir fy mod yn awyddus i barhau i wrando a gweithio gydag ystod amrywiol o bartïon â diddordeb ar y ffordd orau ymlaen ar gyfer materion bwyd yng Nghymru. Mae hyrwyddo agenda strategol ar gyfer bwyd yn dibynnu ar ein ffocws a'n camau gweithredu ar y cyd tuag at ddatblygu polisi bwyd cynaliadwy i Gymru.

Rwy'n bwriadu cadw'r ddogfen yn gyfredol, gan ei diweddaru yn ôl yr angen.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig /
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.